

A OES GENNYCH ENW SY'N GYMERADWY GAN DDUW?

Nodyn i'r siaradwr:

Helpwch y gynulleidfa i werthfawrogi'r pwysigrwydd o ennill cymeradwyaeth Jehofa yn hytrach na ofni dyn. Mewn ffordd wresog a chalonogol dangoswch sut mae cael gafael ar, a chadw, enw da gyda Duw

DYMA PAM MAE EIN SAFIAD NI GYDA DUW YN HANFODOL BWYSIG (4 mun.)

Dylai bod yr enw sydd gennyn ni â Duw yn bwysig inni

Rydyn ni i gyd yn atebol iddo (Rhu 14:10b, 12)

Mae rhieni'n atebol am eu dull o fagu plant

Bydd yr ifainc yn atebol am eu gweithredoedd (Pre 11:9)

Rydyn ni'n gyfrifol am y ffordd rydyn ni'n treulio amser, egni, ac adnoddau

I gael cymeradwyaeth a chadw enw da gyda Duw, rhaid i bob un ymdrechu i'w gadw

Rhaid dysgu ymddiried yn Jehofa, gan fod y rhai y mae'n ei gymeradwyo yn mwynhau bendithion (Dia 3:5, 6; 29:25)

Rydyn ni'n parchu safonau ac arferion cymdeithasol ynglŷn â gwisg a chwarteisi, ond byth yn cyfaddawdu i ofn dyn a chadw arferion sy'n tynnu'n groes i ewyllys Duw. (*w05-E* 1/1 30)

EFELYCHWCH Y RHAI SY'N MWYNHAU ENW DA GYDA DUW (21 mun.)

Yn amseroedd y Beibl bu gwŷr a gwragedd, "torf o dystion" yn ceisio cael enw da gyda Duw yn hytrach na dyn (Heb 12:1)

Drwy ymarfer ffydd, roedden nhw'n cynnal enw da gyda Duw (Heb 11:1, 2)

Mae hefyd nifer o enghreifftiau modern o wŷr a gwragedd Cristnogol sydd wedi gwneud yn debyg

Ystyriwch enghreifftiau o'r gorffennol a'r presennol

Er gwaethaf ei rieni gwrthryfelgar, ceisiodd *Abel* gymeradwyaeth Jehofa trwy addoliad oedd yn dderbynol ganddo (Ge 4:3-5; Heb 11:4; *it-1-E* 15)

Felly heddiw, mae nifer o rai mewn teuluoedd di-gred yn ennill cymeradwyaeth Jehofa am iddyn nhw sefyll yn gadarn o blaid gwir addoliad (*w03-E* 12/1 25; *w99-E* 2/1 8; *yb04-E* 50; *yb98-E* 99-100)

Os ydych chi'n wynebu gwrthwynebiad teuluol am wir addoliad, byddwch yn hyderus, mae'ch dyfalbarhad ffyddlon wedi ei nodi gan Dduw (Mth 10:34-39)

"Rhodiodd *Enoch* gyda Duw," roedd yn enghraifft ddewr, ac er gwaethaf erledigaeth fe ddatganodd barnedig-aethau Jehofa yn erbyn dynion annuwiol (Ge 5:22, 24; Heb 11:5; Jwd 14, 15; *it-1-E* 729)

Mewn amseroedd modern, mae gweision Jehofa wedi bod yn ddi-ofn wrth bregethu Ei farn, er gwaethaf bygythiadau a thrais (*w01-E* 9/1 26; *yb01-E* 115-117; *yb94-E* 194)

Mewn nifer o ardaloedd lle roedd erledigaeth llym, mae nawr gynulleidfaoedd sy'n ffynnu (*ju-E* 666-668, 700-701)

Yn amlwg mae Jehofa yn cymeradwyo'r rhai sy'n dal ati i gyhoeddi'r "Efengyl hon am y deyrnas" er gwaethaf y broffwydoliaeth hon: "Bydd pobl ym mhob gwlad yn eich casâu" (Mth 24:9, 14, *beibl.net*)

Dangosodd *Abraham* a *Sara* eu ffydd trwy ymfudo o'u cartref yn Ur, er bod hyn yn golygu aberthau materol o faint sylweddol iddyn nhw (Ge 12:1-3; Heb 11:8-10; *it-2-E* 1141-1142)

Mae llawer o Dystion amser modern wedi dangos ffydd debyg, drwy aberthu'n faterol er mwyn bod yn fwy defnyddiol yn eu gwasanaeth i Jehofa (*w97-E* 9/15 7; *w92-E* 9/15 27; *yb03-E* 252; *ju-E* 284-286)

Mae'r fath aberthau yn plesio Duw (Mc 10:29, 30)

Cafodd *Moses* addysg dda, "yn nerthol yn ei eiriau a'i weithredoedd"; ond ceisiodd gymeradwyaeth Duw yn hytrach na dyn, a gwrthododd enwogrwydd a thrysorau'r byd (Act 7:20-22; Heb 11:23-26; *it-2-E* 434)

O safbwynt y byd, roedd ei ddewis yn wael o ran gyrfa. Ond gwobr Duw i Moses oedd y fraint o arwain y genedl Israel (Heb 11:6)

Mae yna nifer ymhlith pobl Jehofa heddiw sydd wedi gwrthod statws uchel a bywyd moethus (*w05-E* 10/1 28-31; *w92-E* 11/1 18-20)

Mae Jehofa'n bendithio'r rhai sy'n rhoi'r deyrnas yn gyntaf yn eu bywydau. (Mth 6:33, *w94-E* 1/15 23)

Mentrodd *Rahab* ei bywyd i warchod gweision Jehofa oherwydd roedd hi eisiau cymeradwyaeth Jehofa i'w hun ac i'w theulu (Jos 2:9-13; Heb 11:31; *it-2-E* 727-728)

Yn yr un modd heddiw, mae merched Cristnogol wedi mentro'u bywydau i hyrwyddo'r Deyrnas (*yb94-E* 232, 235)

Efallai ni fydd angen ichi fentro'ch bywyd dros eich brodyr, ond mae meithrin cariad hunanaberthol yn hanfodol er mwyn cadw ffafwr Duw (In 13:34, 35; 1In 4:20, 21)

GWEITHREDWCH NAWR ER MWYN ENNILL CYMERADWYAETH DUW (5 mun.)

Oherwydd pechod, o'u genedigaeth mae'r ddynoliaeth wedi eu dieithrio oddi wrth Dduw (Sal 51:5; Eff 4:18; Col 1:21)

Ar sail aberth Crist, y mae'n bosibl cael perthynas â Jehofa, a mwynhau ei gymeradwyaeth (In 3:36; 14:6)

Mae “dyrfa fawr” wedi’u bendithio ar sail y pridwerth, maen nhw “wedi eu gwisgo â mentyll gwyn,” sydd yn darlunio cymeradwyaeth Duw (Dat 7:9, 10)

Fel y ffyddloniaid gynt, bydd y rhain wedi profi eu ffydd drwy eu sêl wrth bregethu neges y deyrnas
A fyddwch chi yn eu plith?

Profwch eich cyflwr ysbrydol a gwnewch addasiadau yn ôl yr angen

Os ydych chi newydd ddangos diddordeb, dysgwch beth sydd angen ei wneud i gael eich achub—cyn iddi fynd rhy hwyr (Seff 2:2, 3; Rhu 10:13)

Nawr ydy’r amser ffafriol i edrych ar eich safiad gyda Duw

Gall oedi achosi ichi dalu pris uchel (2Co 6:1, 2)

Gweithredwch nawr i ennill enw da gyda Duw!

(Does dim rhaid darllen pob adnod)

Rhif 172-W—tudalen 2

I’W DRADDODI MEWN 30 MUNUD

© 2008 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania